**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **5 Rhagfyr 2002** |
| **Amser** | **14.00** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Pwyllgor 3&4** |
| **Teitl:** | Cynhadledd Llywyddion y Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol, Florence 14/15 Tachwedd 2002 |

Aeth Prif Weinidog Cymru i drydedd cynhadledd y Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol yn Florence (Twsgani) ar 14/15 Tachwedd. Roedd cynhadledd y llynedd yn Liege ac roedd y cyfarfod agoriadol, lle y cafwyd cwmni Prif Weinidog Cymru, ym Marcelona yn 2000.

Mae 72 o ranbarthau sydd â phwerau deddfwriaethol o fewn yr Undeb Ewropeaidd sef tua 56% o boblogaeth yr UE. Er nad yw'r sefydliad yn cynnig diffiniad manwl ynglyn â phwy sy'n gymwys, mae pob un o'i aelodau yn rhanbarthau (neu'n wledydd, yn ein hachos ni) sy'n arfer rhywfaint o annibyniaeth ddemocrataidd o fewn eu haelod-wladwriaeth ac sy'n rheoli rhai agweddau ar ddeddfwriaeth. Mae'n cynnwys mân-ranbarthau annibynnol fel Ynysoedd Aland y Ffindir neu'r Azores ym Mhortiwgal yn ogystal â rhanbarthau mawr yr Almaen, Gwlad Belg, Sbaen, Awstria, yr Eidal a'r DU.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan Claudio Martini, Gweinidog-Lywydd Twsgani, ac roedd llawer o arweinwyr Eidalaidd yno. Roedd Prif Weinidog Cymru yno ochr yn ochr â Phrif Weinidog yr Alban. Roedd tri Gweinidog-Lywydd rhanbarthol Gwlad Belg yno (Fflandrys, Wallonia a Rhanbarth Brwsel) a chafwyd cynrychiolaeth gynhwysfawr i ranbarthau Awstria ar lefel uwch. Ymhlith dirprwyon Sbaen roedd Llywydd Gwlad y Basg (Ibarretxe). Roedd cynrychiolaeth uniongyrchol taleithiau'r Almaen yn siomedig - dim ond Rheinland Pfalz a anfonodd uwch ffigwr gwleidyddol - ond roedd y cyfarfod yn gwrthdaro â chyfarfod cyllidebol rhanbarthol yn yr Almaen. Beth bynnag, mae'r Almaenwyr yn tueddu i'w trefnu eu hunain fel grwp fel bod un Dalaith yn gallu siarad ar ran pawb - arfer a anogir gan eu strwythurau ffederal.

Prif siaradwr gwadd y gynhadledd oedd Michael Barnier, Comisiynydd y CE dros Faterion Rhanbarthol.

Rhoddodd Prif Weinidog Cymru destun Datganiad Florence gerbron y pwyllgor hwn yng nghyfarfodydd 10 Gorffennaf a 31 Hydref. Ac yntau'n cynrychioli Cymru yn y gynhadledd, roedd Prif Weinidog Cymru yn falch o gefnogaeth y pwyllgor ac mae'n cydnabod hyn yn ei ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau ar y Gynhadledd. Ni chafodd testun y datganiad ei ddiwygio'n sylweddol yn y gynhadledd ond mae fersiwn diwygiedig llawn ynghlwm er diddordeb Aelodau. Cymeradwywyd y testun yn unfryd gan y dirprwyon.

Darllenodd bron pob un o'r dirprwyon areithiau a oedd wedi'u paratoi ymlaen llaw ond roedd yn well

gan Brif Weinidog Cymru siarad o'r frest mewn ymateb i'r ddadl. Gwnaeth ddau brif bwynt:

1. Y dylai rhanbarthau osgoi ymddiddori'n ormodol ym mhensaernïaeth sefydliadol yr UE er ei mwyn ei hun. Pwrpas yr UE yw gweithio er lles ei dinasyddion ac, yng Nghymru, mae hyn yn effeithio ar feysydd amlwg fel Cronfeydd Strwythurol, PAC, yr amgylchedd ac ati. Mae ein diddordeb yn y strwythurau sefydliadol wedi'i ddiffinio gan ein dyletswydd i sicrhau y gallwn ddylanwadu ar bolisïau o fewn cylch ein gallu ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau ein dinasyddion.
2. Wrth gynnig cefnogaeth gyffredinol i'r testun, nododd mai cyfaddawd ydoedd, a bod hynny'n anochel o ystyried amrywiaeth y rhanbarthau dan sylw. Nid yw rhai darpariaethau - yn arbennig galwad rhanbarthau am hawl i apelio'n uniongyrchol i Lys Cyfiawnder Ewrop - yn berthnasol yng nghyd-destun y DU, ond nid oedd yn gwrthwynebu eu cynnwys ar y sail y gallent fod yn berthnasol i ranbarthau eraill.

I bob pwrpas, mae datganiad Florence yn gyfraniad ar y cyd ar ran rhanbarthau Ewrop i Gonfensiwn Dyfodol Ewrop. Mae'n ddilyniant i'r ddogfen a luniwyd y llynedd (Liege) a ddylanwadodd ar Ddatganiad Laeken a bennodd ffiniau'r Confensiwn. Y nod erbyn hyn yw dylanwadu ar y Confensiwn cyn iddo drafod materion rhanbarthol yn y Cyfarfod Llawn, fel y disgwylir.

Mae llywyddiaeth y Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol yn symud yn awr o Dwsgani i Salzburg, a fydd yn croesawu'r gynhadledd y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn digwydd ar adeg allweddol yn ystod y broses IGC sy'n dilyn y Confensiwn. Mae'r Alban wedi cytuno i ymgymryd â'r llywyddiaeth y flwyddyn ganlynol, sef 2003-04.

**Mike German**

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**